# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Darpariaethau yn y Bil Aer Glân (Cymru)** |
| **Swyddog(ion) sy'n cynnal yr Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Calum Shaw**<br><br>**John Griffiths**<br><br>**Y Gangen Ansawdd Aer** |
| **Adran:** | **Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Olwen Spiller** |
| **Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | **Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** |
| **Dyddiad Cychwyn:** | **19/11/2020** |

## CYNNWYS

Sut i Gwblhau'r Asesiad Effaith Integredig Hwn ........ 3

Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? ........ 4

Nodau ........ 4

Cyd-destun ........ 7

Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol? ........ 12

Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg? ........ 19

Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd? ........ 20

Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol? ........ 24

Adran 6. Cofnod o asesiadau effaith llawn sy'n ofynnol ........ 29

Adran 7. Casgliad ........ 30

## SUT I GWBLHAU'R ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG HWN

Dylid defnyddio'r templed hwn i grynhoi prif effeithiau'r cynnig. Wrth ei gwblhau, dylech ystyried sut:

- mae'r cynnig yn cyd-fynd â blaenoriaethau a gweledigaeth *Ffyniant i Bawb*;
- y gall y cynnig gyfrannu at lesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol Cymru; ac
- y gallai'r cynnig effeithio ar Gymru a'r bobl sy'n byw yma, yn gadarnhaol neu'n negyddol.

**Asesiadau Effaith Llawn**

I gynnal yr Asesiad Effaith Integredig, bydd angen i chi ddefnyddio rhai, ond nid o reidrwydd pob un, o'r asesiadau effaith llawn a restrir isod ac sydd wedi'u hatodi yng nghefn y templed hwn. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn eich llywio i'r asesiadau effaith llawn perthnasol y mae angen i chi eu cynnal.

| **Atodiad** | **Asesiad Effaith Llawn** |
|---|---|
| **A** | Error! Reference source not found. |
| **B** | Error! Reference source not found. |
| **C** | Error! Reference source not found. |
| **D** | Error! Reference source not found. |
| **E** | Error! Reference source not found. |
| **F** | Error! Reference source not found. |
| Gweler y Fewnrwyd | Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder |

Ar gyfer asesiadau eraill na ddarperir templed asesu ar eu cyfer yma (er enghraifft, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ac Asesiad Effaith Amgylcheddol Strategol), gweler y canllawiau ategol i'r Asesiad Effaith Integredig hwn am ragor o wybodaeth.

## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

(Sylwer y bydd yr Adran hon yn cael ei chyhoeddi)

**Ar ffurf naratif, disgrifiwch y broblem a'r camau a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru. Sut ydych chi wedi / fyddwch chi yn cymhwyso'r pum dull o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau arfaethedig, trwy gydol y cylch polisi a darparu?**

### NODAU

Nod cyfunol y cynigion ym Mil Aer Glân Cymru yw cryfhau'r fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n llywodraethu'r broses o reoli a rheoleiddio ansawdd aer yng Nghymru.

Mae'r Bil yn cefnogi ymrwymiad Maniffesto'r Prif Weinidog i leihau baich ansawdd aer gwael ar iechyd pobl, ein heconomi, bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol. Pan gaiff ei deddfu, bydd y ddeddfwriaeth hon yn cefnogi camau ehangach i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chefnogi twf amgylcheddol.

Disgrifir cynigion y Bil yn y Cynllun Aer Glân i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020.

I sicrhau gwelliannau angenrheidiol i ansawdd aer, mae gan bob rhan o gymdeithas ran i'w chwarae, trwy newidiadau i ymddygiadau gartref, wrth deithio, yn y gwaith ac wrth fwynhau amser hamdden. Mae'r effeithiau a'r manteision yn codi ar draws bob sector.

Byddwn yn cynyddu gallu llywodraeth leol a chenedlaethol i fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael. Mae'r cynigion strategol yn y Bil fel a ganlyn:

- cyflwyno fframwaith pennu targedau ansawdd aer â gofyniad i Weinidogion Cymru bennu un neu fwy o dargedau llygryddion aer, gan gynnwys ar gyfer deunydd gronynnol mân mewn crynodiadau aer yr amgylchedd, mewn deddfwriaeth eilaidd trwy reoleiddio. Mae'n rhaid i'r rheoliadau sy'n pennu'r targedau ar gyfer deunydd gronynnol mân o leiaf gael eu gosod o fewn 24 mis i ddeddfu'r Bil. Mae'n rhaid adolygu'r targedau o bryd i'w gilydd ac mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai adolygiadau gael eu cynnal bob 5 mlynedd o leiaf. Caiff targedau arfaethedig Llywodraeth Cymru eu diwygio gan Weinidogion Cymru dim ond os bydd y cyngor annibynnol ac arbenigol ar dargedau yn newid neu o dan amgylchiadau eithriadol (fel pan nad yw'r manteision yn gymesur i'r costau mwyach). Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi datganiad gerbron y Senedd i adrodd a yw'r targedau wedi'u bodloni erbyn y dyddiad penodedig. Os na chaiff y targedau eu bodloni o fewn 12 mis i gyhoeddi'r datganiad, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru esbonio mewn datganiad arall pam nad yw'r targedau wedi'u bodloni a'r cam(au) y bydd Gweinidogion Cymru (neu awdurdod priodol os caiff awdurdod o'r fath ei ddirprwyo gan Weinidogion Cymru) yn ei gymryd i sicrhau bod targedau yn cael eu bodloni cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Os na fydd targedau wedi'u bodloni, mae'n rhaid i Weinidogion gael cyngor annibynnol ac arbenigol o fewn 8 mis i gyhoeddi'r datganiad o ddiffyg cydymffurfiad. Y nod felly yw llunio Fframwaith Pennu Targedau ar gyfer pennu targedau ansawdd aer seiliedig ar dystiolaeth yn y dyfodol, â gofynion penodol i bennu targed ar gyfer $PM_{2.5}$ i leihau crynodiadau ledled Cymru i lefel sy'n is na chanllaw Sefydliad Iechyd y Byd pan fo'n bosibl, ac is fyth lle ceir potensial digonol ac amlygiad uchel i'r cyhoedd neu risg i grwpiau sensitif.

- gofyniad i Gynllun neu Strategaeth Aer Glân gael ei gyhoeddi ac yna ei adolygu bob 5 mlynedd. Mae'n bwysig i Weinidogion Cymru allu pennu eu hamserlenni eu hunain ar gyfer cyhoeddi ac adolygu'r Cynllun Aer Glân i Gymru. Mae hyn o bwysigrwydd allweddol gan y bydd angen, dros amser, diweddaru a diwygio'r Cynllun Aer Glân i Gymru i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n newid ac yn parhau ar gyfer mynd i'r afael â llygredd aer a diogelu iechyd pobl gan gynnwys yr amgylchedd ehangach. Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru yn fodd o drefnu cyfres o bolisïau ac uchelgeisiau ar gyfer gwella ansawdd aer mewn ffordd systematig i gynorthwyo a hwyluso darpariaeth. Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru yn cyflwyno cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin â phob ffynhonnell o lygredd aer, gwneud ein haer yn iachach i'w anadlu, gwarchod natur a hybu'r economi.

- pwerau newydd ar gyfer rheoli mwg yn gysylltiedig â mynd i'r afael â llygredd aer o losgi domestig (PM2.5). Mae'r cynigion penodol yn cynnwys mabwysiadu trefn gorfodi sifil yn hytrach na'r drefn droseddol ar gyfer Ardaloedd Rheoli Mwg (lle mae'n drosedd allyrru mwg o simnai adeilad oni bai y defnyddir tanwydd awdurdodedig neu ddosbarth o le tân sydd wedi'i eithrio); gorfodi defnydd o Orchmynion Rheoli Mwg ym mhob ardal drefol sy'n bodoli meini prawf penodol (i'w nodi yn y Bil); cyflwyno gofyniad ar awdurdodau lleol i adolygu Ardaloedd Rheoli Mwg yn rheolaidd o ran gweithredu neu ddiddymu Gorchymyn Rheoli Mwg; a chynnwys hylosgi awyr agored mewn Ardaloedd Rheoli Mwg (coelcerthi, er enghraifft).

- fframwaith rheoli ansawdd aer deddfwriaethol a rheoleiddio sy'n addas i'r diben. Nod y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yw galluogi awdurdodau lleol i gymryd camau ataliol trwy wneud strategaethau monitro rhagweithiol yn ofynnol a sicrhau cydymffurfiad cyn gynted â phosibl mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Bydd y ddeddfwriaeth yn cyflwyno cysyniad 'partneriaid' i ddarparu cymorth i awdurdodau lleol wrth ddatblygu a gweithredu atebion ar y cyd â sefydliadau eraill. O dan y ddeddfwriaeth, ni fydd sefydliad a ddynodwyd yn 'bartner' yn gallu gwrthod yn rhesymol ymgysylltu ag awdurdod lleol i ddatblygu camau effeithiol i wella ansawdd aer, oni bai y gall gyfiawnhau hyn gyda thystiolaeth addas. Mae Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995 yn darparu'r fframwaith ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer Lleol a'r cynnig yw diweddaru'r ddeddfwriaeth i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r egwyddorion (a'r dulliau o weithio) a nodir yn Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y nod yw creu trefn sy'n rhagweithiol, yn ataliol ac yn canolbwyntio ar iechyd. Bydd cynigion yn y Bil yn cynnwys yn benodol gofyniad eglur i awdurdodau lleol ddarparu dyddiad cydymffurfio rhagamcanol ar gyfer pob Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar ôl llunio a gwerthuso Cynlluniau Gweithredu ar Ansawdd Aer gan gytuno dyddiadau cydymffurfio gyda Gweinidogion Cymru. Bydd y ddeddfwriaeth bresennol ar Gynlluniau Gweithredu ar Ansawdd Aer yn cael ei hegluro i sicrhau eu bod yn nodi camau gweithredu ac amserlenni cysylltiedig i sicrhau bod safonau ac amcanion ansawdd aer yn cael eu bodloni a'u cynnal yn yr hirdymor gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu Cynlluniau Gweithredu unwaith bob 5 mlynedd o leiaf.

- pwerau cryfach i fynd i'r afael â cherbydau yn segura. Mae'r Cynllun Aer Glân yn nodi'r ymrwymiad i archwilio ymhellach y sail dystiolaeth ar gyfer datblygu a gweithredu mesurau gwrth-segura, yn enwedig o ran y cysylltiadau cymhleth rhwng allyriadau ac amlygiad. Nod y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yw cryfhau'r fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n llywodraethu gwrth-segura trwy ddarparu canllawiau gwrth-segura, gan gynnwys pŵer i gynyddu symiau cosbau penodedig am segura.

- pwerau wedi'u cydgrynhoi i gyflwyno Parthau Aer Glân a/ neu Barthau Allyriadau Isel. Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru yn nodi'r disgwyliad y byddwn yn gweld Parthau Aer Glân yn cael eu sefydlu mewn trefi neu ddinasoedd ledled Cymru gyfan i leihau effaith allyriadau trafnidiaeth ar iechyd ac y gall hyn gael ei gefnogi gan elfen codi tâl. Mae'r Bil yn cynnig cyflwyno Parthau Aer Glân neu Barthau Allyriadau Isel yng Nghymru lle ceir dadl dros eu sefydlu i gynorthwyo gwelliant i ansawdd aer. Gellir disgrifio Parth Aer Glân fel "ardal lle cymerir camau wedi'u targedu i wella ansawdd aer, yn benodol trwy annog pobl i beidio â defnyddio'r cerbydau sy'n llygru fwyaf". I annog pobl i beidio â defnyddio'r cerbydau sy'n llygru fwyaf, mae'r Bil yn darparu ar gyfer y defnydd posibl o dâl ar ffyrdd dynodedig lle nad yw safonau allyriadau a bennwyd ar gyfer categorïau cerbydau penodol yn cael eu bodloni. Gallai'r tâl amrywio ar draws amrywiaeth o gategorïau cerbydau. Byddai'r darpariaethau deddfwriaethol arfaethedig yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol bwerau i gyflwyno cynllun codi tâl ar y ffyrdd hynny lle mai nhw yw'r awdurdod traffig perthnasol. Mae'r Bil yn cynnig cychwyn darpariaethau perthnasol yn Neddf Trafnidiaeth 2000 i alluogi awdurdodau lleol (naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn partneriaethau rhanbarthol gydag awdurdodau lleol cyfagos) i weithredu cynlluniau codi tâl yn llawn; i greu trefn codi tâl annibynnol newydd ar gyfer cefnffyrdd gan gynnwys grym gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru; ac i ehangu'r cyfyngiadau presennol ar enillion net o brisio ffyrdd ar gefnffyrdd gael eu buddsoddi mewn cynlluniau trafnidiaeth lleol yn unig.

- dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â chanllawiau yn annog gwahanol ffyrdd o weithio a chamau i leihau llygredd aer a chefnogi datgarboneiddio. Mae'r Cynllun Aer Glân yn nodi ymrwymiad i lunio, erbyn 2022, canllawiau rhyng-sectoraidd i rymuso gweithluoedd ledled Cymru i fynd i'r afael â llygredd aer. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau y bydd y canllawiau yn darparu manteision ansawdd aer, iechyd a datgarboneiddio yn gydamserol. Y bwriad yw cynnwys cymal yn y Bil yn rhoi'r canllawiau ar sail statudol fel eu bod yn berthnasol i'r sector cyhoeddus (GIG Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; awdurdodau lleol), gan gynnwys y sectorau preifat a gwirfoddol; i'w gwneud yn ddyletswydd statudol i randdeiliaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol adrodd ar gynnydd (bob 6 mis) a bod yn atebol am eu gweithredoedd/cyfrifoldebau i Lywodraeth Cymru. Gellid defnyddio'r wefan Ansawdd Aer Cymru fel dull adrodd ar gyfer y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

## CYD-DESTUN

Mae aer glân yn hanfodol ar gyfer bywyd, iechyd, yr amgylchedd a'r economi. Mae llygredd aer yn un o ganlyniadau ein dulliau presennol o gynhyrchu pŵer, gwresogi ein cartrefi, cynhyrchu bwyd, gweithgynhyrchu nwyddau a phweru trafnidiaeth. Mae angen i ni annog a chefnogi arloesedd a'r nifer sy'n manteisio ar dechnolegau glanach, gan gydnabod hefyd bod newidiadau i ymddygiad yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r llygredd sy'n hawlio bywydau.

Mae llygredd aer yn broblem leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol a achosir gan allyriad llygryddion sy'n arwain, yn uniongyrchol neu drwy adweithiau cemegol yn yr atmosffer, at effeithiau negyddol ar iechyd pobl, ecosystemau a'r economi.

Fe wnaeth Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ddatgan Argyfwng Hinsawdd ym mis Ebrill 2019. Mae'r Cynllun Aer Glân yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r heriau a wynebir, ochr yn ochr â strategaethau a chynlluniau eraill ar gyfer datgarboneiddio, amaethyddiaeth a'r amgylchedd naturiol.

**Hirdymor**

- *Pa dueddiadau, heriau a chyfleoedd hirdymor allai effeithio ar y cynnig?*

Mae'r mater o lygredd aer yn ffenomen fyd-eang ac yn unol â'i natur ni all un wlad fynd i'r afael ag ef – o ganlyniad, bydd y newid yn yr hinsawdd a chamau gan lywodraethau eraill yn effeithio ar y cynnig hwn. Mae'r cynigion ar gyfer y Bil Aer Glân yn cynrychioli pethau y gall Cymru fynd i'r afael â nhw yn rhan o'i chyfrifoldebau byd-eang.

Er enghraifft, mae crynodiadau cyffredinol o $PM_{2.5}$ yn y rhan fwyaf o Gymru yn isel (ag amcangyfrif o grynodiad cymedrig wedi'i bwysoli ar sail poblogaeth (PWMC) o 6.0 $\mu g/m^3$ yn 2016). Fodd bynnag, mae cyfraniadau gan gerbydau motor tanio, allyriadau trafnidiaeth ar y ffyrdd nad ydynt yn allyriadau egsôst, allyriadau domestig a diwydiannol, yn cyfrannu at lefelau uchel lleol mewn ardaloedd trefol. Mae cyfraniad llosgi pren domestig at grynodiadau $PM_{2.5}$ yn gwneud cyfraniad sylweddol ar hyd arfordir y gogledd ac mewn ardaloedd trefol, gan gynnwys ar gyfer y poblogaethau trefol mawr yn Abertawe a Chaerdydd. Allyriadau mewn mannau problemus mewn ardaloedd diwydiannol a threfol trwchus eu poblogaeth y mae gan awdurdodau lleol bwerau i'w rheoli yw'r rhain. I ysgogi'r camau sydd eu hangen i sicrhau aer glanach a lleihau effeithiau llygredd aer yng Nghymru, mae'n bwysig ein bod yn gallu pennu'r targedau iawn.

Mae angen i bennu fframwaith targed ansawdd aer i Gymru fod yn ymdrech gyffredin gan bob rhanddeiliad (fel y sector cynhyrchu pŵer, y sector domestig, y sector bwyd, y sector gweithgynhyrchu a'r sector trafnidiaeth). Er mwyn lleihau allyriadau, efallai y bydd yn rhaid i randdeiliaid newid neu leihau'r ffordd y maent yn defnyddio deunyddiau (h.y. stofiau pren) neu sut y maent yn cynhyrchu nwyddau. Efallai y bydd gan rai rhanddeiliaid gostau ychwanegol yn gysylltiedig â chydymffurfio ag unrhyw dargedau a bennir yn y dyfodol a fydd yn benodol i sectorau ac yn benodol i ardaloedd (lefelau crynodiad lleol). Dylai'r fframwaith pennu targedau nodi meysydd y gall Cymru fynd i'r afael â nhw yn rhan o'i chyfrifoldebau byd-eang ac ar gyfer aer glanach i'w dinasyddion.

- *Sut mae'r cynnig yn atal / lliniaru'r effeithiau gwael yn y tueddiadau hyn neu'n hwyluso / gwneud y gorau o'r effeithiau da?*

Mae cynigion y Bil Aer Glân yn ffurfio fframwaith rhyng-gysylltiedig o gamau a fydd yn sefydlu ac yn cyflawni yn erbyn **targedau hirdymor** i sicrhau gostyngiad cynyddol allyriadau a llygryddion yn yr aer.

**Atal**

- *Sut mae'r cynnig yn cynorthwyo'r broses o dorri cylchoedd negyddol fel tlodi, iechyd gwael, niwed amgylcheddol a cholled bioamrywiaeth*

Bydd cymryd camau **ataliol** i leihau effeithiau llygredd aer ar iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd naturiol a datblygu camau cynnar llwyddiannus gan lunio atebion hirdymor o fudd i gymdeithas ehangach.
Bwriedir yn benodol i'r Bil Aer Glân leihau a lliniaru peryglon i iechyd a hybu dulliau o weithio a theithio sy'n cefnogi ac yn gwella'r amgylchedd.

- *A yw'r cynnig yn trin symptom neu'r achos sylfaenol? Os felly, sut? Os yw'n trin symptom, beth gelir ei wneud am yr achos sylfaenol?*

Nod cynigion y Bil Aer Glân yw mynd i'r afael ag achosion sylfaenol llygredd aer a phan nad yw hyn yn bosibl, lliniaru'r effeithiau.

- *Sut gallai'r cynnig sicrhau bod ei effeithiau negyddol ei hun cyn lleied â phosibl e.e. sicrhau cyn lleied â phosibl o wastraff a defnydd o adnoddau, allyriadau ac effaith ar ansawdd aer, effaith negyddol ar gydlyniant cymdeithasol / cymunedol?*

Nod cynigion y Bil Aer Glân yw darparu effeithiau sy'n gadarnhaol i raddau helaeth. Mae'n debygol mai ariannol fydd canlyniadau negyddol tebygol y Bil, gan fod costau sylweddol yn gysylltiedig â rhai o'r gweithgareddau arfaethedig.
Mae'r Bil yn cynnig camau gweithredu (yn enwedig o ran y canllawiau ar rymuso gweithluoedd i fynd i'r afael â llygredd aer) sy'n cymell ystyriaeth o newidiadau i syniadau ac ymddygiad unigol a chyfunol; efallai y bydd pobl yn amheus o'r rhain i gychwyn, ond gallent gyfrannu dros amser at well llesiant a mwy o gyfleoedd i weithredu fel cymunedau buddiant.

**Integreiddio**

- *Sut gallai'r cynnig hwn gysylltu â chyfrannu at wahanol agendâu polisi cyhoeddus a chreu manteision lluosog e.e. sut gall prosiect trafnidiaeth gefnogi gwelliannau i iechyd, diwylliant neu fod heb waith?*

Datblygwyd cynigion y Bil mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid a grwpiau mewnol ac allanol, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Awyr Iach Cymru, Fforwm Ansawdd Aer Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Trafnidiaeth Cymru.

Cynlluniwyd cynigion y Bil i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ganolbwyntio ar gamau sy'n arwain at wella ansawdd aer a lleihau effeithiau niweidiol llygredd aer ar ddinasyddion a'r amgylchedd.

Datblygwyd y cynigion trwy ddeialog ffurfiannol gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws y Llywodraeth. Cyn diwedd tymor presennol y Senedd, bydd Llywodraeth Cymru yn lansio ymgynghoriad Papur Gwyn ar gynigion y Bil.

Bydd cynigion y Bil yn gwella integreiddiad prosesau rheoli ansawdd aer trwy well arferion gwaith o fewn a rhwng cyrff sector cyhoeddus (fel yng nghyswllt y Fframwaith Rheoli Ansawdd Aer Lleol) ac yn creu cyfleoedd ar gyfer cydweithrediad rhyng-sectoraidd i gynorthwyo gwelliant i ansawdd aer.

- *Pa gamau ymarferol ydych chi wedi eu cymryd i integreiddio eich cynnig gyda Ffyniant i Bawb – ein Strategaeth Genedlaethol, amcanion a chynlluniau llesiant, yn ogystal â rhai cyrff cyhoeddus eraill a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i sicrhau bod cyfraniad y cynnig mor fawr â phosibl ar draws y saith nod llesiant?*

Mae Ffyniant i Bawb – y Strategaeth Genedlaethol yn ein hymrwymo i greu cymunedau iachach a gwell amgylcheddau. Mae gan aer glân ran ganolog i'w chwarae o ran creu'r amodau iawn ar gyfer gwell iechyd, llesiant a mwy o weithgarwch corfforol yng Nghymru. Datblygwyd y Papur Gwyn ar y Bil Aer Glân (Cymru) i gefnogi darpariaeth yr ymrwymiad i leihau allyriadau a chyflawni gwelliannau hanfodol i ansawdd aer trwy reoliadau a chanllawiau i annog a hybu'r ymdrech i fynd i'r afael â llygredd aer ar draws pob sector.

**Cydweithredu**

- *Pwy yw'r partneriaid sydd â buddiant cyffredin yn y cynnig hwn?*

Mae partneriaid yn y cynnig yn cynnwys adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru; Awdurdodau lleol yng Nghymru; Sefydliadau Anllywodraethol; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; Trafnidiaeth Cymru; gan gynnwys y sectorau gwirfoddol a phreifat. Nod cydweithredu yw sicrhau bod camau yn cael eu cymryd ac amcanion llesiant yn cael eu bodloni.

- *Sut mae'r partneriaid hynny wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynnig a chynllunio ei ddarpariaeth, a pha gyfraniad fyddant yn ei wneud ato?*

Mae'r partneriaid hyn naill ai wedi cyfrannu at ddatblygiad y cynigion neu byddant yn cyfrannu at ddarpariaeth camau sy'n cyflawni uchelgeisiau'r Bil.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y Papur Gwyn ar gynigion y Bil cyn diwedd tymor presennol y Senedd.

**Cyfranogiad**

- *Sut mae pobl sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?*

Gwahoddwyd rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y gweithdai Cynllun Aer Glân a gynhaliwyd ddechrau 2020. Mae'r cynigion ar gyfer y Bil yn ymddangos yn y Cynllun Aer Glân diweddaraf. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y Papur Gwynt ar gynigion y Bil cyn diwedd tymor presennol y Senedd.

- *Yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig a sut y gellid eu cynnwys yn ei ddarpariaeth?*

Bydd rhanddeiliaid yn gallu cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar gynigion y Bil. Bydd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn cael ei gynnal cyn diwedd tymor presennol y Senedd.

*Yn ogystal â'r pum dull o weithio uchod, ystyriwch y meysydd canlynol:*

**Effaith**

- *Beth yw'r prif ddadleuon o blaid ac yn erbyn y cynnig? Cyfeiriwch at dystiolaeth; cydnabyddwch fylchau sylweddol yn ein gwybodaeth a disgrifiwch unrhyw gynlluniau i'w llenwi.*

Ceir corff sylweddol o waith ymchwil o ffynonellau yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol sy'n gwneud y berthynas rhwng llygredd yn yr awyr, iechyd a marwolaeth yn eglur. Hefyd, mae gennym dystiolaeth sylweddol o'r angen i fynd i'r afael â llygredd yn yr aer o ffynonellau amaethyddol, masnachol, domestig, diwydiannol a thrafnidiaeth. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb datganoledig i fynd i'r afael â llygredd yn yr aer ac ymrwymiadau cyfreithiol i sicrhau bod targedau domestig a rhyngwladol yn cael eu bodloni.

*Pa mor eang ydych chi wedi archwilio'r dadleuon hyn trwy gyfranogiad a chydweithrediad?*

Datblygwyd yr angen i weithredu a chynnwys y Bil mewn cydweithrediad agos ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Awyr Iach Cymru a Fforwm Ansawdd Aer Cymru.

**Costau ac Arbedion**

**Faint fydd y cynigion yn ei gostio a sut y byddant yn cael eu hariannu?**

Disgwylir i'r costau o sefydlu a gweithredu'r Fframwaith Pennu Targedau fod yn gostau gweinyddol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu talu. Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd beth fydd gwerth hyn.

Pan fydd targedau ar gyfer gwelliannau i ansawdd aer yn cael eu pennu o dan y Fframwaith, mae'n debygol y bydd angen i gamau gael eu cymryd gan wahanol sectorau i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol.

Mae mesurau i gynorthwyo gwelliant i ansawdd aer yn debygol o fod yn ddrud a bydd angen eu cynnal dros gyfnod o hyd at 20 mlynedd o bosibl, i gynorthwyo cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae angen tua £350,000 ar gyfer tystiolaeth y dyfodol sy'n angenrheidiol i gefnogi uchelgeisiau'r Cynllun Aer Glân, gan gynnwys deall sut ac erbyn pryd y gellir sicrhau cydymffurfiad â'r targed statudol newydd ar gyfer deunydd gronynnol mân. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill i ddylunio fframwaith ar gyfer monitro, modelu, asesu a gwerthuso ansawdd aer estynedig. Mae costau offer a rhedeg parhaus yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad.

Amcangyfrifir mai £10.5 miliwn y flwyddyn yw'r gost flynyddol i gymdeithas ar draws pob sector a phortffolio Gweinidogol yng Nghymru ar gyfer mesurau sy'n sicrhau cyfran dybiannol Cymru o dargedau lleihau allyriadau llygryddion aer statudol y DU ar gyfer 2030. Costau amcangyfrifedig yw'r rhain ac nid oes digon o wybodaeth ar gael i ddadansoddi'r costau hyn fesul sector unigol.

**Amcangyfrif y manteision iechyd fesul cam gweithredu**

Comisiynwyd gwaith ymchwil pellach gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i sut y byddai'r effaith yn ôl mesurau a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth lleihau allyriadau yn troi'n fanteision iechyd i'r dinasyddion yng Nghymru. Gan ddefnyddio 2016 fel blwyddyn sylfaenol, cafwyd asesiad cenedlaethol o £50.00 ($PM_{2.5}$) a £6.30 ($NO_2$) y person fesul ug/m$^3$ y flwyddyn o Fodel Asesu Integredig y DU (UKIAM) ac fe'i defnyddiwyd yn yr hafaliad a ddangosir isod:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y gostyngiad o ganlyniad i grynodiad cymedrig wedi'i bwysoli gan y boblogaeth o $PM_{2.5}$ neu $PM_{10}$, ar gyfartaledd dros boblogaeth Cymru | X | Poblogaeth Cymru (3.16m) | X | Newid mewn crynodiad budd buddiol fesul person fesul uned |

Mae'r canfyddiadau o'r ymchwiliad hwn yn awgrymu y byddai gweithrediadau'r rhestr fwyaf ymarferol o fesurau yn cynhyrchu effaith iechyd â gwerth ariannol o £76 miliwn (ystod £21 miliwn i £230 miliwn) o ostyngiadau cysylltiedig i $PM_{2.5}$ a £15 miliwn (ystod £1.5 miliwn i £62 miliwn) o'r gostyngiadau i $NO_2$.

Yn yr un modd, mae hyn yn berthnasol i gynigion eraill y Bil, hynny yw, bydd y costau gweithredu yn cael eu nodi pan fydd y gwaith o weithredu darpariaethau amrywiol y Bil yn cychwyn.

**Dull**

- ***A yw'r ddeddfwriaeth yn cael ei chynnig? Os felly, mae'n debyg y bydd angen i chi gwblhau** Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Gallwch ddefnyddio allbwn yr Asesiad Effaith Integredig hwn i'ch helpu.*

Bydd y Bil yn destun ei Asesiad Effaith Integredig ei hun a fydd yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

### 2.1 Pobl a Chymunedau

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/isel), bydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?**

*Er enghraifft:*

- *Unigolion penodol, grwpiau o bobl neu gymunedau*

Bydd cynigion y Bil Aer Glân o fudd i holl bobl Cymru ac ymwelwyr â hi.

Bydd manteision cymdeithasol – er enghraifft, mae manteision cymdeithasol sefydlu fframwaith pennu targedau llygredd newydd yn cynnwys manteision iechyd, gwell ansawdd bywyd a gwell cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored. Bydd camau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb yng Nghymru, yn enwedig os caiff gwelliannau i allyriadau ( ac felly crynodiadau) eu sicrhau mewn ardaloedd o amddifadedd. Gallai hyn hefyd arwain at well synnwyr o gymuned. Bydd effeithiau cadarnhaol ar iechyd o ganlyniad i aer glanach yn hwyluso'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored.

*Pobl yn byw mewn mannau penodol, yn gweithio ynddynt neu'n gysylltiedig â nhw*

Yn ogystal â'r datganiad uchod, mae'r Bil Aer Glân yn cynnig camau parhaus i fynd i'r afael â llygredd yn yr aer mewn gweithleoedd ac ohonynt (o ran y ddarpariaeth yn ymwneud â'r canllawiau ar rymuso gweithleoedd i fynd i'r afael â llygredd aer). Bydd y ddarpariaeth o fudd i'r cymunedau ehangach y mae'r gweithleoedd hynny wedi'u lleoli ynddynt.

- *Defnyddwyr cynnyrch neu wasanaeth penodol*

Amherthnasol.

- *Gweithwyr, yn gyffredinol neu mewn sector penodol, a'r nod o hybu gwaith teilwng (yn unol ag adran 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)*

  - Bydd cynigion y Bil Aer Glân yn arwain at effeithiau economaidd i fusnesau. Er enghraifft, bydd y costau atal sy'n angenrheidiol i gyflawni'r gostyngiadau i allyriadau yn effeithio ar amrywiaeth o sectorau fel ynni, gweithgynhyrchu a thrafnidiaeth. Fodd bynnag, bydd camau effeithiol i wella ansawdd aer yn helpu i greu gweithlu iachach a gwell cynhyrchiant gan y dylai nifer yr oriau staffio a gollir i absenoldeb salwch leihau[1]. Hefyd, efallai y bydd effeithiau cyflogaeth cadarnhaol o ganlyniad i waith ychwanegol yn deillio o weithgynhyrchu a gosod y technolegau atal. O ran y canllawiau ar rymuso gweithluoedd i fynd i'r afael â llygredd aer, bydd hyn yn arwain at weithleoedd a

[1] Ricardo (2014), "*Valuing the impacts of Air Quality on productivity*", ar gael yn https://uk-air.defra.gov.uk/assets/documents/reports/cat19/1511251135_140610_Valuing_the_impacts_of_air_quality_on_productivity_Final_Report_3_0.pdf, gwelwyd ddiwethaf ar 5 Tachwedd 2020

gweithluoedd iachach, gan gynnwys cymunedau iachach yn ehangach. Bydd y cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth (er enghraifft, drwy'r fframwaith pennu targedau) a fydd yn arwain at ecosystemau yn gweithredu yn well. Gallai hyn hefyd arwain at effaith gadarnhaol ar dwristiaeth a gweithgareddau awyr agored eraill.

### 2.2 Hawliau Plant

Mae'n ofynnol i Weinidogion roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

Yn hytrach na chwestiynau sgrinio, **dylech ddilyn y siart lif briodol** a nodir yn y *Cynllun Hawliau Plant* i benderfynu a oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant. **Os byddwch o'r farn nad oes ei angen, dylech roi eich rhesymau yma. Fel arall, cwblhewch yr Error! Reference source not found.** yn atodiad A isod.

### 2.3 Cydraddoldeb

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn eich cynorthwyo i ystyried effaith eich cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

**Mae cwblhau'r** Error! Reference source not found. **yn orfodol**. Mae'r asesiad ar gael yn **atodiad B** isod.

### 2.4 Prawfesur Gwledig

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/isel), bydd y cynnig yn effeithio ar unigolion a chymunedau gwledig?**

*Er enghraifft:*

- A ydych chi wedi ystyriaeth anghenion penodol pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd prin eu poblogaeth?

Cymerwyd amgylchiadau'r rhai mewn ardaloedd prin eu poblogaeth i ystyriaeth. Ddechrau 2020, cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori ledled Cymru ar y Cynllun Aer Glân drafft (a oedd yn cynnwys cynigion y Bil Aer Glân) er mwyn hwyluso ymgysylltiad gan gymunedau gwledig. Amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad bod angen camau ychwanegol i ddiogelu pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Roedd y materion allweddol a godwyd yn ymwneud â seilwaith a hygyrchedd trafnidiaeth gynaliadwy; ac atal cymunedau gwledig rhag mynd i dlodi tanwydd o ganlyniad i unrhyw gamau i fynd i'r afael ag allyriadau o losgi domestig. O ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiadau ymgynghori, ehangwyd aelodaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen Hylosgi Domestig Llywodraeth Cymru i gynnwys cynrychiolwyr busnesau masnachwyr glo a fyddai'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol ac sy'n cyflenwi i ardaloedd gwledig. Hefyd, rydym yn

gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol, Trafnidiaeth Cymru ac Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau bod darpariaethau'r Bil yn cymryd amgylchiadau penodol mewn ardaloedd gwledig i ystyriaeth.

Ni fydd y Fframwaith Pennu Targedau ei hun yn effeithio yn uniongyrchol ar anghenion pobl sy'n byw mewn ardaloedd prin eu poblogaeth, ond yn dibynnu ar y targedau sy'n cael eu pennu, efallai y bydd rhai camau gofynnol yn cael effaith ar yr ardaloedd hyn. Pan fo targedau yn cael eu cynnig, rhagwelir y bydd proses ymgynghori yn cael ei chynnal ledled Cymru er mwyn hwyluso ymgysylltiad gan gymunedau gwledig.

Pan ymgynghorwyd ar lunio'r Cynllun Aer Glân, tynnwyd sylw at dlodi tanwydd yn yr ardaloedd hyn fel problem bosibl. O'r herwydd, mae aelodaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen Hylosgi Domestig Llywodraeth Cymru wedi'i ehangu i gynnwys cynrychiolwyr busnesau masnachwyr glo a fyddai'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol, ac sy'n cyflenwi i ardaloedd gwledig**.** Cynigir mai dyma fydd yr achos ar gyfer ymarfer ymgynghori'r Fframwaith Pennu Targedau.

Mae maes arall y gallai fod angen ei ystyried yn cynnwys darpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Os oes newidiadau i hyrwyddo'r defnydd o gerbydau â thanwydd glanach, efallai y bydd angen cefnogi'r rhain trwy sicrhau bod gorsafoedd petrol priodol wedi'u lleoli mewn ardaloedd mwy gwledig i wasanaethau'r cerbydau hyn. Bydd angen ystyried hyn ar gyfer cerbydau sector cyhoeddus a phreifat.

- *Beth fydd yr effaith i bobl sydd wedi'u hynysu yn ddaearyddol?*

Mae amgylchiadau'r rhai sydd wedi'u hynysu yn ddaearyddol yn debyg i'r rhai mewn ardaloedd prin eu poblogaeth, a bydd eu hamgylchiadau unigryw yn cael eu cadw mewn cof.

- *Sut bydd y cynnig yn effeithio ar fynediad at wasanaethau i bobl cefn gwlad?*

- Ni fydd y Papur Gwyn yn cael effaith uniongyrchol ar fynediad at wasanaethau i bobl hŷn.

- *Beth fydd yr effaith ar bobl hŷn? (Mae gan gymunedau gwledig boblogaeth oedrannus anghymesur yn aml.)*

Ni fydd y Papur Gwyn yn cael effaith uniongyrchol ar fynediad at wasanaethau i bobl hŷn. Dylai cynigion y Bil wella ansawdd aer a fydd o fudd uniongyrchol i bobl hŷn.

*Beth fydd yr effaith ar dai? (Ceir diffyg tai fforddiadwy mewn cymunedau gwledig yn aml.)*

O ganlyniad i newidiadau sy'n cael eu hachosi (er enghraifft, y cynigion hynny yn ymwneud â llosgi domestig), dylai fod gwelliant i ansawdd tai. Mae'n annhebygol mai un o'r effeithiau net fyddai effaith ar nifer y tai fforddiadwy mewn cymunedau gwledig.

- *Beth fydd yr effaith ar y Gymraeg? (Mae rhai cymunedau gwledig yn Gymraeg eu hiaith yn bennaf.)*

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

- *Beth fydd yr effaith ar dlodi mewn gwaith a thlodi tanwydd?*

Ni fydd unrhyw effaith uniongyrchol ar dlodi mewn gwaith.

Ceir cynigion Bil Aer Glân sy'n ymwneud â llosgi domestig. Ceir perygl o gynnydd mewn tlodi tanwydd os bydd costau tanwydd yn cynyddu yn sylweddol. Bydd hyn yn cael ei liniaru trwy ymgynghori â chynrychiolwyr rhanddeiliaid, a dylunio mesurau priodol.

- *Beth fydd yr effaith ar fusnesau gwledig? (Microfusnesau a busnesau bach yn bennaf yw'r rhain yn aml.)*

Disgwylir y bydd effeithiau economaidd i fusnesau - er enghraifft, byddai'r costau atal sy'n angenrheidiol i sicrhau'r gostyngiadau i allyriadau yn effeithio ar amrywiaeth o sectorau fel ynni, gweithgynhyrchu a thrafnidiaeth. Hefyd, gallai fod effeithiau cyflogaeth cadarnhaol o ganlyniad i waith ychwanegol yn deillio o weithgynhyrchu a gosod y technolegau atal.

Ceir potensial hefyd i gyfyngiadau a gwaharddiadau ar fathau penodol o danwydd solet gael effaith niweidiol ar fusnesau gwledig, naill ai fel eu prif ffynhonnell incwm neu fel ffynhonnell incwm eilaidd. Byddai unrhyw effaith yn cael ei lliniaru gan gyflwyno cyfnod pontio mewn unrhyw ddeddfwriaeth.

**Os yw'r effeithiau yr ydych chi wedi eu nodi yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau asesiad mwy manwl, yna dylech gwblhau** Error! Reference source not found.**, yn atodiad C isod.**

**Esboniwch eich penderfyniad a ddylid cynnal asesiad llawn o'r effaith ar brawfesur gwledig ai peidio.**

Mae asesiad llawn o'r effaith ar brawfesur gwledig wedi ei gynnwys yn Atodiad C.

### 2.5 Iechyd

**2.5a Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/isel), bydd y cynnig yn effeithio ar benderfynyddion iechyd?**

Mae Iechyd Cyhoeddus wedi darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol.

Mae'r Bil wedi'i ddylunio i wella ansawdd aer yng Nghymru a dylai hyn wella yn sylweddol iechyd holl bobl Cymru ac yn enwedig y rhai yn yr ardaloedd mwyaf llygredig lle disgwylir i gamau wedi'u targedu fod yn fwyaf effeithiol. Mae nifer o astudiaethau cyhoeddedig wedi dangos cyfatebiaeth uchel iawn rhwng ardaloedd o lygredd aer uchel ac amddifadedd economaidd,[2,3] lle gellir rhesymu bod ansawdd aer gwael yn cyfyngu ar dwf yr economi leol oherwydd cynhyrchiant isel ei gweithlu. Felly, bydd y gwelliant i ansawdd aer lleol yn cael effaith ar iechyd lleol gyda maint gofodol yr effaith yn gymesur i raddau helaeth a maint arwynebedd gofodol y mesurau. Mae maint yr effaith hefyd yn debygol o fod yn gymesur â lefel yr amddifadedd economaidd gan fod gwelliant i ansawdd aer yn debygol o gael effaith fwy ar y rhanbarthau o amddifadedd economaidd mwyaf.

---

[2] Brunt, H et al (2016), '*Air pollution, deprivation and health: understanding relationships to add value to local air quality management policy and practice in Wales, UK*', [ar gael ar-lein]: https://www.researchgate.net/publication/307979303_Air_pollution_deprivation_and_health_Understanding_relationships_to_add_value_to_local_air_quality_management_policy_and_practice_in_Wales_UK, gwelwyd ddiwethaf ar 13 Hydref 2020.

[3] Fecht, D, et al (2014), '*Associations between air pollution and socioeconomic characteristics, ethnicity and age profile of neighbourhoods in England and the Netherlands*', [ar gael ar-lein] https://www.camden.gov.uk/documents/20142/18676139/Jason+Strelitz+Appendix+20.pdf/cad3d506-7281-6abb-aa7f-c1155fa00f0b, gwelwyd ddiwethaf ar 13 Hydref 2020.

Ystyriwch:

- *Ffyrdd o fyw*

Wrth i ansawdd aer wella, a gyda'r effaith gysylltiedig ar iechyd a llesiant, disgwylir y bydd gan ddinasyddion fwy o gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden a fydd yn cael effaith gadarnhaol ychwanegol ar iechyd corfforol a meddwl. Mae rhai o'r gweithleoedd sy'n llygru fwyaf yn debygol o gael eu targedu ar gyfer gwelliannau a ddylai wella iechyd a llesiant gweithwyr a chymunedau lleol ger y sefydliadau.

- *Dylanwadau cymdeithasol a chymuned ar iechyd*

Disgwylir y bydd cynigion y Bil Aer Glân yn cael effaith o ran mynediad at fannau gwyrdd a chynnydd i weithgareddau awyr agored. Yn y byrdymor, mae gwelliannau i ansawdd aer yn debygol o ddenu dinasyddion i dreulio mwy o amser yn yr awyr agored, a bydd hyn o fudd i ddinasyddion o bob oed. Efallai y gallai dinasyddion oedrannus â chyflyrau iechyd hysbys gael eu denu i gymryd rhan mewn lefel briodol o weithgarwch corfforol a chymdeithasol os byddant yn ymwybodol o fanteision posibl anadlu aer glanach. Mae llawer o astudiaethau wedi dangos y gall mwy o weithgarwch corfforol ac ymgysylltu cymdeithasol ymestyn a gwella ansawdd bywyd dinasyddion oedrannus.[4]

- *Llesiant meddwl*

Mae gan welliannau i ansawdd aer y potensial o gynyddu gweithgarwch corfforol a hamdden, â manteision cysylltiedig i lesiant meddwl. Mae gwelliannau i ansawdd aer yn debygol o wella bioamrywiaeth, a all wneud mannau awyr agored yn fwy deniadol a gwella trwy hynny llesiant meddwl cymdeithas. Mae'r manteision hyn yn debygol o gael eu mantoli yn y byrdymor gan effaith polisïau newydd ar y rhai sy'n gweithio mewn proffesiynau sy'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan unrhyw reoliad arfaethedig. Mae'n bwysig felly bod busnesau, a BBaChau yn arbennig, yn cael eu cynorthwyo yn briodol gan lywodraeth genedlaethol fel eu bod yn barod ac yn gallu addasu i reoliadau newydd. Bydd hyn yn helpu i leihau lefel y straen a ddioddefir gan y rhai y mae eu hincwm yn cael ei effeithio gan y newid.

- *Effaith ar amodau byw/amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd*

- Pwyslais tebygol unrhyw reoliad newydd yw sicrhau gwelliannau i'r amodau amgylcheddol a byw sy'n effeithio ar iechyd. Bydd lleihau llygryddion yn yr aer yn cael effaith fuddiol ar gyflyrau sy'n cael eu heffeithio gan yr amgylchedd. Bydd mynediad at fannau gwyrdd a mwy o gyfleoedd ar gyfer opsiynau teithio llesol yn annog cynnydd i ymarfer corff a gweithgareddau awyr agored buddiol, ac o bosibl yn arwain at ostyngiadau i lygredd aer sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Gallai polisïau posibl yn y dyfodol i wella ansawdd aer gynnwys pecynnau cymorth ariannol ar gyfer uwchraddio adeiladau a cherbydau glanach. Mae cynnwys pecynnau cymorth ar gyfer uwchraddio adeiladau yn debygol o dargedu

[4] Bath, P a Deeg, D (2005), '*Social engagement and health outcomes among older people: introduction to a special section',* [ar gael ar-lein]: https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC5547666, gwelwyd ddiwethaf ar 13 Hydref 2020.

allyriadau sy'n deillio o'r eiddo domestig a allai fod wedi'u hinsiwleiddio yn wael ac felly defnyddio mwy o ynni nag eiddo effeithlon o ran ynni. Hefyd, mae'n debygol y bydd cyfran sylweddol o breswylwyr cartrefi sy'n elwa ar becyn uwchraddio cartref yn dioddef o dlodi tanwydd. Felly, bydd trigolion sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn cael gwell gwerth am eu costau ynni a allai helpu i wella eu safon o fyw a'u hiechyd.

*Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd*

Yn y byrdymor i'r tymor canolig, efallai y bydd angen i lawer o fusnesau bach addasu i unrhyw reoliadau arfaethedig sy'n targedu allyriadau a allai gael effaith wedyn ar iechyd meddwl y partïon sy'n cael eu heffeithio. Gan edrych yn fwy hirdymor, bydd gwella ansawdd aer mewn ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan ddiwydiant sy'n cynhyrchu llygredd aer o ganlyniad yn gwella cyflyrau iechyd. Bydd ansawdd aer gwell yn cynorthwyo i leihau diwrnodau cynhyrchiol a gollir i anhwylderau sy'n gysylltiedig â llygredd aer.

- *Mynediad ac ansawdd gwasanaethau*

Gallai polisi yn y dyfodol gynnwys ymrwymiadau a bwriadau i gefnogi mentrau teithio llesol a gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd llai o alw am adnoddau GIG yn caniatáu i ddarpariaeth gwasanaethau meddygol gael ei hail-ganolbwyntio.

- *Ffactorau macroeconomaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd*

Bydd gwella ansawdd aer yn cael effaith fuddiol ar ffactorau amgylcheddol a chynaliadwyedd. Bydd effaith ganlyniadol ar iechyd a llesiant.

**2.5b. A allai fod gwahanol effaith iechyd ar grwpiau penodol?**

Ystyriwch:

Grwpiau cysylltiedig ag oedran

Gall ansawdd aer gwael gael effaith niweidiol ar iechyd dinasyddion trwy waethygu problemau iechyd sylfaenol neu achosi problemau iechyd newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod problemau unigryw yn gysylltiedig ag amlygiad plant i lygryddion aer. Gall ansawdd aer gwael effeithio ar ddatblygiad corfforol a gwybyddol plant. Gall problemau iechyd hirdymor atal plant rhag mynd i'r ysgol, a all niweidio rhagolygon plentyn ar gyfer y dyfodol. Gall problemau iechyd hirdymor barhau ymhell i fywyd fel oedolyn.

Mae llygredd aer hefyd yn cael effaith niweidiol ar bobl hŷn, yn enwedig o ran clefydau anadlol a chardiofasgwlaidd. Bydd lleihau llygredd aer yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl hŷn.

- *Grwpiau cysylltiedig ag incwm*

Mae tystiolaeth[5] yn dynodi bod y rhai sydd â'r incwm isaf yn fwy tebygol o gael eu heffeithio yn niweidiol gan ansawdd aer gwael. Bydd camau i wella ansawdd aer a amlinellir yn y Cynllun yn cael effeithiau buddiol ar iechyd yn y grwpiau hyn yn yr hirdymor.

- *Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall*

Ni ragwelir y bydd cynigion y Bil Aer Glân yn cael unrhyw effaith ar grwpiau o'r fath.

- *Grwpiau daearyddol*

Bydd cynigion y Bil Aer Glân yn arwain at fuddion iechyd i weithluoedd a'r cymunedau ehangach ledled Cymru.

Bydd unrhyw bolisi neu reoliad yn y dyfodol a gynigir gan Lywodraeth Cymru i leihau allyriadau llygryddion aer yn targedu prif ffynonellau'r llygrydd sy'n peri pryder. Mae'n hysbys bod rhai pwyntiau allyriadau allweddol yn deillio o ardaloedd o ddiwydiant trwm, a allai hefyd fod yn elfen allweddol o'r economi leol. Felly, mae dinasyddion sy'n byw mewn ardaloedd lle mae llygrydd allweddol yn cael dylanwad mawr ar yr economi leol yn debygol o gael eu heffeithio gan unrhyw ofynion arfaethedig ar y llygrydd. Fodd bynnag, bydd yr effaith hon yn cael ei mantoli gan y manteision iechyd a chymdeithasol hirdymor y bydd y trigolyn yn ei gael o'r gostyngiad i lygryddion aer yn yr aer.

**Os yw'r effeithiau yr ydych wedi eu nodi yn ddigon sylweddol i'w gyfiawnhau, dylech gynnal asesiad mwy manwl o'r effaith ar iechyd.** Ceir rhagor o wybodaeth yn y canllawiau sy'n ategu'r ffurflen hon. **Esboniwch eich penderfyniad ynghylch a ddylid cynnal asesiad mwy manwl o'r effaith ar iechyd ai peidio.**

Ceir corff o waith ymchwil sy'n bodoli eisoes o ffynonellau yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol sy'n gwneud y berthynas rhwng llygredd yn yr aer, iechyd a marwolaeth yn eglur.

**2.6 Preifatrwydd**

**A fydd y cynnig yn golygu prosesu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion?**

Na fydd.

**Os BYDD, yna mae'n rhaid i chi gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yn atodiad D isod.**

Amherthnasol.

---

[5] Fecht, D, et al (2014), '*Associations between air pollution and socioeconomic characteristics, ethnicity and age profile of neighbourhoods in England and the Netherlands*', [ar gael ar-lein] https://www.camden.gov.uk/documents/20142/18676139/Jason+Strelitz+Appendix+20.pdf/cad3d506-7281-6abb-aa7f-c1155fa00f0b, gwelwyd ddiwethaf ar 13 Hydref 2020.

## ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

### 3.1 Llesiant Diwylliannol

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw: 'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'. Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol adeiledig yn ogystal â threftadaeth anniriaethol fel traddodiadau; mae celfyddydau yn cwmpasu sectorau perfformiad a chreadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, theatr a chelf, ac mae chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elît a chymunedol yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn hamdden awyr agored ehangach.

**3.1a Sut gall y cynnig gyfrannu yn weithredol at y nod o hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden? (gweler adran 3.2 ar gyfer y Gymraeg)**

Bydd cynigion y Bil Aer Glân yn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd o ganlyniad i aer glanach yn hwyluso cyfranogiad y cyhoedd mewn gweithgareddau hamdden awyr agored.

**3.1b A yw'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden? Os felly, pa gamau allwch chi eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, trwy gynnig cyfleoedd amgen)?**

Nac ydy.

### 3.2 Y Gymraeg

**Mae cwblhau'r** Error! Reference source not found. **yn orfodol.** Mae'r asesiad ar gael yn **atodiad E** isod.

## ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae cefnogi twf yn economi Cymru, a thrwy hyn mynd i'r afael â thlodi, yn ganolog i *Symud Cymru Ymlaen,* Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

### 4.1 Busnes, y cyhoedd ac unigolion

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/isel), bydd y cynnig yn effeithio ar fusnes a'r cyhoedd?**

*Mae angen i chi wneud asesiad cyffredinol yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael o fanteision ariannol ac nad ydynt yn ariannol ac o ran costau byrdymor a hirdymor. Dylech ystyried sut y bydd busnesau o wahanol fathau a'r cyhoedd yn gyffredinol (unigolion ac aelwydydd) yn cael eu heffeithio. Dylech ddarganfod pa grwpiau neu sectorau fydd yn cael eu rhoi o dan anfantais a pha rai fydd yn elwa. Dylid ystyried yr holl gostau a buddion dros gyfnod amser priodol.*

*Mae'n rhaid i'r holl gymorth cyhoeddus a ddarperir i sefydliadau sy'n ymgymryd â gweithgarwch economaidd gydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol.*

**Cadarnhaol (uniongyrchol ac anuniongyrchol)** – byddai gweithlu iach ac amgylchedd glân yn cyfrannu at ffyniant trwy weithlu cynhyrchiol a chostau cymdeithasol is.

Byddai effeithiau cyflogaeth cadarnhaol hefyd yn deillio i'r cwmnïau hynny sy'n gweithgynhyrchu ac yn gosod technolegau atal yn y DU.

**Negyddol (uniongyrchol ac anuniongyrchol)** –

Byddai costau atal sy'n ofynnol i sicrhau'r gostyngiad gofynnol i lygredd aer yn effeithio ar amrywiaeth eang o sectorau gan arwain at effeithiau niweidiol ar gyflogaeth, cystadleuaeth a BBaChau. Gallai gweithgynhyrchu cynhyrchion golosg a phetrolewm puredig, gweithgynhyrchu metelau sylfaenol a morgludiant (cludiant dŵr) fod yn agored i niwed oherwydd y costau atal uchel a/neu lefel y cystadleurwydd yn effeithio ar eu gallu i drosglwyddo costau atal ychwanegol i gwsmeriaid.

Daeth gwaith ymchwil blaenorol[6] i gost gweithredu mesurau newydd a fydd yn sicrhau bod Cymru yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb Terfyn Uchaf Allyriadau Cenedlaethol yr UE i'r casgliad na fydd dinasyddion sy'n gweithio yn y mwyafrif o sectorau economaidd yng Nghymru yn cael eu heffeithio i raddau helaeth gan y mesurau a awgrymir; fodd bynnag, mae'r adroddiad yn awgrymu y bydd 84% o ddinasyddion a fydd yn cael

[6] Wood PLC, "*Development of national multi pollutant measures database (MPMD) and abatement scenarios for devolved administrations – Wales*", darparwyd y ddogfen gan Lywodraeth Cymru.

eu heffeithio yn y diwydiant metelau yn cael eu heffeithio mewn rhyw ffordd a bydd nifer ychydig yn llai o 6% yn cael eu heffeithio yn y diwydiannau golosg a phetrolewm puredig a chludiant dŵr yn eu trefn.

Daeth yr un adroddiad i'r casgliad hefyd bod unrhyw fesur yn y dyfodol i wella effeithlonrwydd ynni annedd domestig yn debygol o gael effaith gadarnhaol i feddiannydd y cartref ac i'r busnes sy'n cyflawni'r gwelliannau. Mewn egwyddor, bydd mesurau eraill sy'n debygol o gael eu cynnig yn y dyfodol yn ysgogi newid angenrheidiol mewn busnesau a chyfraniad sylweddol at lygredd aer (yn ogystal ag ôl troed carbon) yn cael eu gorfodi i addasu i fod yn fusnes sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn amgylcheddol yn yr hirdymor.

### 4.2 Sector Cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/isel), bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?**

*Mae angen i chi wneud asesiad cyffredinol yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael o fanteision ariannol ac nad ydynt yn ariannol ac o ran costau byrdymor a hirdymor. Dylech ystyried sut y bydd gwahanol fathau o gyrff sector cyhoeddus yn cael eu heffeithio. Dylid ystyried yr holl gostau a buddion dros gyfnod amser priodol.*

Bydd cynigion y Bil aer Glân yn effeithio ar awdurdodau lleol. Er enghraifft, bydd goblygiadau o ran adnoddau i Awdurdodau Lleol yng nghyswllt trefn well ar gyfer y fframwaith Rheoli Ansawdd Aer Lleol ac ar gyfer rheoli a gorfodi camau rheoli mwg ac atal cysylltiedig. Mae cynigion eraill a fydd yn effeithio ar awdurdodau lleol yn cynnwys cynigion yn ymwneud â gwrth-segura; y canllawiau sy'n grymuso gweithluoedd i fynd i'r afael â llygredd aer; a'r grym i'w caniatáu i gyflwyno cynlluniau codi tâl ar gyfer y ffyrdd y maent yn gyfrifol amdanynt.

Mae awdurdodau lleol yn debygol o elwa yn yr hirdymor o'r gostyngiad i allyriadau sy'n cynnwys llygryddion drwg, ond bydd hyn yn dibynnu ar y rheoliad/polisi a gynigir a sut y caiff y neges ei chyfleu i ddinasyddion Cymru. Mae dinasyddion Cymru yn debygol o groesawu'r posibilrwydd o aer glanach ond efallai na fyddant yn deall yn llawn sut y mae lefelau allyriadau presennol yn effeithio ar gymdeithas Cymru ac felly efallai na fyddant yn cytuno ag unrhyw gyfyngiadau arfaethedig, gan arwain at wahanol safbwyntiau rhwng cyrff llywodraethu a dinasyddion preifat. Bydd cyrff cyhoeddus eraill fel y gwasanaeth iechyd gwladol a phartïon cysylltiedig yn elwa o ddinasyddion yn anadlu aer glanach gan y bydd costau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chlefyd anadlol a phryderon meddygol eraill sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwael yn gostwng. Mae ymchwiliad i sut y gallai Cymru fodloni Cyfarwyddeb Terfyn Uchaf Allyriadau Cenedlaethol yr UE (NECD)[7] yn awgrymu y bydd cyflwyno cyfres o fesurau yn arwain at arbedion sylweddol yn y system iechyd cyhoeddus.

[7] Apsimon, H et al (2019), '*Assessing the effect of emission reduction measures on air quality in Wales*', Centre for Environmental Policy: Imperial College London, darparwyd y ddogfen gan Lywodraeth Cymru drwy e-bost.

### 4.3 Trydydd Sector

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/isel), fydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau trydydd sector a'r hyn y maent yn ei wneud?**

*Er enghraifft:*

- *Pa gyfraniad mae sefydliadau trydydd sector eisoes yn ei wneud at fodloni nodau'r cynnig? Pa ran fyddant yn ei chwarae yn y dyfodol o ganlyniad i'r cynnig?*

Bydd cyrff cynrychioliadol trydydd sector fel Plantlife ac Awyr Iach Cymru yn parhau i gael eu hymgynghori wrth ddatblygu cynigion y Bil Aer Glân.

- *A yw sefydliadau trydydd sector eisoes yn derbyn cyllid cyhoeddus ar gyfer y gwaith hwn neu waith tebyg?*

Mae nifer o sefydliadau trydydd sector yn derbyn cyllid cyhoeddus o ran y maes pwnc hwn, er enghraifft, Global Action Plan, ar gyfer darparu Diwrnod Aer Glân.

- *A fydd y cynnig yn effeithio ar bobl sydd eisoes yn derbyn lefel uchel o gymorth gan y trydydd sector?*

Na fydd.

- *A oes disgwyl i unrhyw agweddau ar y cynnig hwn gael eu darparu gan y trydydd sector, neu eisoes yn cael eu darparu ganddo?*

Oes. Er enghraifft, mae Awyr Iach Cymru yn gynghrair o sefydliadau partner yng Nghymru sydd i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi gwelliannau i ansawdd aer.

- *A oes unrhyw agwedd ar y cynnig yn dibynnu ar wirfoddolwyr i'w darparu?*

O ran y canllawiau ar rymuso gweithluoedd i fynd i'r afael â llygredd aer, mae swyddogion yn archwilio'r posibilrwydd o annog 'cynrychiolwyr gwyrdd' mewn undebau llafur i hybu a chefnogi gwelliant i ansawdd aer yn y gweithle ar sail ryng-sectoraidd.

- *A oes unrhyw agwedd ar y cynnig yn effeithio ar gyfleusterau / asedau cymunedol y mae sefydliadau trydydd sector yn eu defnyddio neu'n berchen arnynt?*

Nac oes.

### 4.4 Effaith ar Gyfiawnder

Atebwch y canlynol o ran eich cynnig:

- **A ydych chi'n cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol newydd?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Bil Aer Glân yn ei Rhaglen Ddeddfwriaethol yn ystod tymor nesaf y Senedd. Bydd Papur Gwyn yn cael ei ddrafftio ar gyfer ymgynghoriad yn ystod tymor presennol y Senedd.

- **A ydych chi'n creu, yn dileu neu'n diwygio trosedd?**

O ran troseddau, mae'r cynigion yn cynnwys:

- O ran rheoli mwg, newid o drefn droseddol i drefn gorfodi sifil
- O ran llosgi domestig
  - galluogi awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi yn erbyn cyflenwyr sy'n mynd yn groes i unrhyw waharddiad ar werthu a defnyddio mathau penodol o danwydd
  - darganfod natur a lefel unrhyw sancsiynau am fethiannau o'r fath, gan gynnwys yr hyn y gellir defnyddio'r cyllid a gynhyrchir ar ei gyfer a
  - gwahardd coelcerthi ac ymestyn y drefn rheoli mwg i gynnwys llosgi awyr agored

O ran gwrth-segura, ceir cynnig i roi'r grym i awdurdodau lleol yng Nghymru gynyddu swm cosb benodedig am injan yn segura.

Byddwn yn asesu'r manteision, yr anfanteision, y risgiau, y cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo troseddau llygredd aer o gyfraith droseddol i gyfraith sifil. Fodd bynnag, ni fydd y Cynllun Aer Glân na'r camau sy'n gysylltiedig â'r Bil yn arwain at greu, dileu neu ddiwygio trosedd.

- **A allai eich cynnig arwain at unrhyw effaith arall ar y system gyfiawnder e.e. trwy fwy o ymgyfreitha, angen am gymorth cyfreithiol, apêl yn erbyn penderfyniad corff cyhoeddus?**

Gallai, ond bydd angen i swyddogion ystyried y mater hwn yn fwy eang

**Os ydych wedi rhoi ateb CADARNHAOL i unrhyw un o'r uchod, yna mae angen i chi nodi'r effeithiau ar y system gyfiawnder. Cwblhewch y Ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder, ar y dudalen fewnrwyd Cyfiawnder.**
**[**https://intranet/english/PolicyDelivery/AppraisingPolicy/Economic/Justice/Pages/Welcome.aspx**]**

Justice System
Impact Identification 2

*(Byddwch yn ymwybodol bod yn **rhaid** cwblhau a chyhoeddi asesiad o'r effaith ar Gyfiawnder ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol newydd. Bydd y Tîm Polisi Cyfiawnder yn eich cynorthwyo a'ch cynghori drwy'r broses hon a bydd yr wybodaeth yr ydych yn ei chofnodi yn eich* **'Ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder** *yn eich helpu.**)***

## ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

O dan Adran 9 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol a chymryd pob cam rhesymol i'w weithredu ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Cyhoeddwyd y Polisi Adnoddau Naturiol ym mis Awst 2017.

**Bydd angen i chi ystyried, a phan fo'n ofynnol, cwblhau'r asesiadau canlynol** i sicrhau y cymerwyd pob cam rhesymol:

| | | |
|---|---|---|
| **Yn ofynnol ar gyfer pob cynnig:** | • Blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol | 5.1a<br>5.1b |
| **Yn ofynnol ar gyfer pob cynnig** | • Bioamrywiaeth | 5.2 ac Atodiad F |
| **Yn ofynnol ar gyfer pob cynnig** | • Newid yn yr Hinsawdd | 5.3 |
| Cynlluniau a rhaglenni penodol sydd angen Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 | • Asesiad Amgylcheddol Strategol | 5.4 a Chanllawiau IIA |
| Cynigion a allai effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig (ACA/AGA): | • Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | 5.5 a Chanllawiau IIA |
| Prosiectau penodol yn ymwneud â chynllunio gwlad a thref; trafnidiaeth; amaethyddiaeth; coedwigaeth; y môr, draenio'r tir; a thrydan sydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o dan y | • Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | 5.6 a Chanllawiau IIA |

Rheoliadau Asesu'r Effaith
Amgylcheddol amrywiol

**5.1 Adnoddau Naturiol**

**5.1a Sut bydd y cynnig yn cyflawni un neu fwy o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol?**

- Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur;
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; a thrwy wneud hynny,
- Mabwysiadu dull seiliedig ar le.

Ar ôl eu gweithredu, bydd cynigion y Bil Aer Glân yn cael effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth a fydd yn arwain at well gweithrediad ecosystemau.

**5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**

- *Gwrthdroi'r dirywiad i fioamrywiaeth – trwy ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth;*

Un o brif ymrwymiadau'r Cynllun Aer Glân yw cyfrannu at wella bioamrywiaeth. Bydd lleihau llygredd aer trwy ostwng lefelau crynodiad llygryddion yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.

- *Diogelu a chynyddu storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas;*

Amherthnasol.

- *Cynnal capasiti cynhyrchiol, yn enwedig trwy wella ansawdd pridd a bioddiogelwch;*

Bydd rhai camau, yn ymwneud â thrin amonia, a defnyddio planhigion bachu nitrogen yn cyfrannu at wella ansawdd pridd.

- *Lleihau'r perygl o lifogydd;*

Amherthnasol.

- *Cynorthwyo camau lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd trwy ddulliau ecosystem;*

Ceir cyfatebiaeth uniongyrchol rhwng ansawdd aer a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, o ran:

Lleihau'r defnydd o danwydd ffosil, yn enwedig ar gyfer trafnidiaeth gerbydol;

Gwella'r amgylchedd a bioamrywiaeth;

Mentrau ailgoedwigo a gwyrddu trefol.

- *Lleihau llygredd sŵn a lefelau llygredd yn ein haer, a gwella ansawdd aer;*

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod sŵn yn llygrydd yn yr aer ochr yn ochr â llygryddion ffisegol. Mae sŵn ei hun y tu allan i gwmpas Bil Aer Glân Cymru.

- *Gwella ansawdd ein dŵr a sicrhau bod digon ohono ar gael;*

Amherthnasol.

- *Cymryd camau i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol, fel trwy effeithlonrwydd adnoddau ac ynni adnewyddadwy.*

Nod darpariaeth y Bil Aer Glân ar y canllawiau sy'n grymuso gweithluoedd i fynd i'r afael â llygredd aer yw cysylltu gwelliant i ansawdd aer â datgarboneiddio trwy leihau allyriadau o amaethyddiaeth; adeiladau; diwydiant; y sector nwyon wedi'u fflworeiddio; y sector pŵer; gwastraff; a thrafnidiaeth.

- *Cefnogi dulliau ataliol o ymdrin â chanlyniadau iechyd, â phwyslais penodol ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol o lygredd aer a sŵn cysylltiedig â thrafnidiaeth, mynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl;*

Un o brif ymrwymiadau cynigion y Bil Aer Glân yw cyfrannu at wella iechyd y cyhoedd. Ceir cyfatebiaeth eglur rhwng ansawdd aer gwael a lefelau uwch o salwch, gan gynnwys iechyd meddwl. Bydd cynigion y Bil Aer Glân yn cyfrannu yn gyfunol at hybu gweithgarwch, llesiant ac iechyd.

- *Cefnogi camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd;*

Bydd cynigion y Bil Aer Glân yn creu effeithiau cadarnhaol ar iechyd o ganlyniad i aer glanach yn hwyluso cyfranogiad y cyhoedd mewn gweithgareddau hamdden awyr agored. Bydd camau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb yng Nghymru, yn enwedig os ceir gwelliannau i allyriadau (ac felly crynodiadau) mewn ardaloedd o amddifadedd. Gallai hyn hefyd arwain at well synnwyr o gymuned. Bydd manteision iechyd i'r gweithlu ond mae costau posibl yn gysylltiedig â chamau atal i fusnesau. Mae'r Cynllun Aer Glân yn cynnwys adran ar "wella ansawdd aer i ddiogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol". Cefnogir hyn gan amrywiaeth o ymrwymiadau a chamau gweithredu.

- *Cefnogi cydlyniant cymunedol;*

Bydd cynigion y Bil Aer Glân yn arwain at gamau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb yng Nghymru, yn enwedig os ceir gwelliannau i allyriadau (ac felly crynodiadau) mewn ardaloedd o amddifadedd. Gallai hyn hefyd arwain at well synnwyr o gymuned.

- *a chefnogi cyflogaeth diogel a sefydlog;*

Efallai y bydd effeithiau cyflogaeth cadarnhaol o ganlyniad i waith ychwanegol yn deillio o weithgynhyrchu a gosod y technolegau atal sy'n angenrheidiol i sicrhau aer glanach. Bydd yr asesiad risg yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn rhoi sylw o'r effeithiau economaidd a chyflogaeth i sectorau sy'n cael eu heffeithio.

### 5.2 Bioamrywiaeth

**I ddangos cydymffurfiad ag Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n rhaid i chi gwblhau'r** Error! Reference source not found.**, yn atodiad F isod.**

### 5.3 Newid yn yr Hinsawdd

Nodwyd y newid yn yr hinsawdd fel un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu ein cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen i ni leihau ein hallyriadau trwy gamau datgarboneiddio (5.3a) ac i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy gynyddu ein cydnerthedd (5.3b).

#### 5.3a Datgarboneiddio

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/isel), bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau yng Nghymru?**

- *I'ch helpu i ystyried effeithiau eich cynnig ar allyriadau, byddai'n ddefnyddiol meddwl a yw eich polisi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn effeithio ar ddefnydd tir, sut yr ydym yn cludo pobl/nwyddau, adeiladau a seilwaith, gwastraff, busnes a diwydiant, asedau Sector Cyhoeddus, a'r galw am ynni a defnydd ohono.*

Bydd cynigion y Bil Aer Glân yn cael effaith fuddiol ar yr holl agweddau a amlinellir uchod. Mae'n debygol y bydd goblygiadau o ran cost i lywodraeth a busnesau, ac i unigolion o bosibl.

Os yw'r effeithiau yr ydych wedi eu nodi yn sylweddol, yna dylech gynnal asesiad gan ddefnyddio dull prisio Nwyon Tŷ Gwydr Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. **Esboniwch eich penderfyniad ynghylch a ddylid cynnal asesiad mwy trylwyr o'r effaith ar allyriadau ai peidio.**

Disgwylir i'r Bil Aer Glân, trwy gyflawni ei gamau gweithredu, gyfrannu at ostyngiad nwyon tŷ gwydr. Mae hyn yn cyd-fynd â pholisi Carbon Isel Llywodraeth Cymru, y cynhaliwyd asesiad effaith llawn yn ei erbyn eisoes. Ni ragwelir y bydd y Bil Aer Glân na'i gamau gweithredu yn arwain at ostyngiad sylweddol i allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ychwanegol i'r rhai a ragwelir eisoes o dan y polisi Carbon Isel a'r Strategaeth Datgarboneiddio.

**5.3 b Addasu**

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/isel), bydd y cynnig yn effeithio ar allu i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd?**

Ceir cysylltiad pendant rhwng y ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â'r canllawiau ar rymuso gweithluoedd i fynd i'r afael â llygredd aer, a datgarboneiddio. Bydd y canllawiau yn annog y symudiad oddi wrth gerbydau sy'n llygru. Nod y darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â Pharthau Aer Glân hefyd yw annog pobl i beidio â defnyddio cerbydau sy'n llygru trwy greu Parthau Aer Glân lle cymerir camau wedi'u targedu i wella ansawdd aer. Cynhyrchir cyfran sylweddol o lygredd aer gan drafnidiaeth. Bydd lleihau'r allyriadau o'r ffynhonnell hon, a chefnogi'r newid i gerbydau hybrid, cwbl drydan neu wedi'u gyrru gan hydrogen yn cyfrannu at fodloni targedau ansawdd aer ochr yn ochr â thargedau datgarboneiddio. Mae'r un peth yn wir ar gyfer disodli cynhyrchu pŵer â thanwydd ffosil gyda dewisiadau adnewyddadwy amgen.

Disgwylir felly y bydd y Bil Aer Glân yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd aer yng Nghymru.

*Mae addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn golygu bod yn barod ar gyfer effeithiau fel tymheredd uwch, gwyntoedd cryfach, moroedd yn codi a mwy o law. A yw'r cynnig yn helpu i addasu i'r newidiadau hyn neu a allai wneud pethau yn waeth?*

Nid yw'r Bil Aer Glân yn cynnwys camau a fyddai'n cynorthwyo i addasu i'r newidiadau hyn. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddai unrhyw ddarpariaethau yn y Bil Aer Glân yn gwneud pethau yn waeth.

**5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol**

Cyfeiriwch at y canllawiau asesiad effaith integredig a dolenni ymlaen perthnasol i ganfod a oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol.

**Esboniwch eich penderfyniad ynghylch a yw Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ofynnol o dan y gyfraith ai peidio.**

Ar ôl adolygu'r canllawiau IIA a rheoliadau perthnasol, ystyrir nad oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol.

**5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Cyfeiriwch at y canllawiau asesiad effaith integredig a'r dolenni ymlaen perthnasol i ganfod a oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

**Esboniwch eich penderfyniad ynghylch a yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ofynnol o dan y gyfraith ai peidio.**

Ar ôl adolygu'r canllawiau IIA a rheoliadau perthnasol, ystyrir nad oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

**5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol**

Cyfeiriwch at y canllawiau asesiad effaith integredig a'r dolenni ymlaen perthnasol i ganfod a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

**Esboniwch eich penderfyniad ynghylch a yw Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol o dan y gyfraith ai peidio.**

Daeth asesiad yn erbyn y meini prawf sgrinio i'r casgliad nad yw'n ofynnol.

Impact Assessment Requirements 20191(

## ADRAN 6. COFNOD O ASESIADAU EFFAITH LLAWN SY'N OFYNNOL

Rydych wedi penderfynu bellach pan feysydd sydd angen asesiad effaith mwy manwl. Rhestrwch nhw isod.

| **Asesiad Effaith** | **Oes/Nac oes** | **Os oes, dylech** |
|---|---|---|
| Hawliau plant | Oes | Gweler Atodiad A |
| Cydraddoldeb | Oes* | Gweler Atodiad B |
| Prawfesur Gwledig | Nac oes | |
| Iechyd | I'w gadarnhau | Cyfeiriwch at y Canllawiau Asesiad Effaith Integredig |
| Preifatrwydd | Nac oes | |
| Y Gymraeg | Oes* | Gweler Atodiad E |
| Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Nac oes | |
| Cyfiawnder | Oes | |
| Bioamrywiaeth | Oes* | Gweler Atodiad F |

| | | |
|---|---|---|
| Newid yn yr Hinsawdd | Nac oes | |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Nac oes | |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Nac oes | |
| Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | Nac oes | Cyfeiriwch at y Canllawiau Asesiad Effaith Integredig |

* Gorfodol ar gyfer pob cynnig er mwyn bodloni rhwymedigaethau statudol.

## ADRAN 7. CASGLIAD

(Sylwer y bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

**7.1 Sut mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi'u cynnwys yn ei ddatblygiad?**

*Cadwch o fewn 250 o eiriau*

*Nid yn unig y mae'n ddyletswydd arnom i ymgysylltu ac ymgynghori o dan amgylchiadau penodol, ond ceir tystiolaeth eglur bod cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid yn ganolog i bolisi a darpariaeth lwyddiannus. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym wedi ymrwymo i gynnwys pobl. Disgrifiwch sut yr ydych wedi cynnwys:*

- *Plant a'u cynrychiolwyr;*

Cafodd plant a phobl ifanc gyfle i gyfrannu yn ystod cyfnod ymgynghori ar gyfer y Cynllun Aer Glân (a oedd yn cynnwys cynigion y Bil) drwy'r ymgynghori arferol a thrwy ymgysylltu a Senedd Ieuenctid Wrecsam.

*Pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;*

Cafodd y rhai â nodweddion gwarchodedig gyfle i gyfrannu yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer y Cynllun Aer Glân (a oedd yn cynnwys cynigion y Bil)

- *Siaradwyr Cymraeg a grwpiau arbenigol y Gymraeg;*

Bydd datblygiad Bil Aer Glân Cymru yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Llywodraeth Cymru o ran ystyriaethau Cymraeg.

**7.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf sylweddol, yn gadarnhaol a negyddol?**

*Cadwch o fewn 750 o eiriau*

*Dylid defnyddio'r adran hon i helpu i gwblhau adran 6 y templed MA*

Bydd aer glanach ledled Cymru yn cynnig buddion sylweddol ac amrywiol iawn i bob rhan o gymdeithas, ein hamgylchedd a'n heconomi, gan gynnwys buddion iechyd cyhoeddus. Bydd camau effeithiol i wella ansawdd aer yn helpu i greu gweithlu iachach a gwell cynhyrchiant gan y dylai nifer yr oriau staffio a gollir i absenoldeb salwch leihau. Hefyd, efallai y bydd effeithiau cyflogaeth cadarnhaol o ganlyniad i waith ychwanegol yn deillio o weithgynhyrchu a gosod technolegau atal.

Mae'r buddion cymdeithasol yn cynnwys buddion iechyd, ansawdd bywyd gwell a gwell cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored.

Bydd y cynigion yn arwain at gamau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb yng Nghymru, yn enwedig os ceir gwelliannau i allyriadau (ac felly crynodiadau) mewn ardaloedd o amddifadedd. Gallai hyn hefyd arwain at well synnwyr o gymuned.

Disgwylir y bydd effeithiau economaidd i fusnesau. Er enghraifft, bydd y costau atal sy'n angenrheidiol i sicrhau'r gostyngiadau i allyriadau yn effeithio ar amrywiaeth o sectorau fel ynni, gweithgynhyrchu a thrafnidiaeth.

Bydd aer glanach ledled Cymru yn cynnig buddion sylweddol ac amrywiol iawn i bob rhan o gymdeithas, ein hamgylchedd a'n heconomi. Mae'r Cynllun Aer Glân yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i leihau llygredd aer i gefnogi buddion helaeth i Gymru, gan ddiogelu Cymru iachach a mwy llewyrchus ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r corff cryfaf o dystiolaeth sy'n cysylltu llygrydd aer â marwolaeth ac effeithiau afiachedd eraill yn ymwneud â gronynnau mân. Yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol sy'n tueddu i fod â'r crynodiadau uchaf o lygryddion. Gall hyn, ynghyd â'r ffaith mai poblogaethau o'r fath yw'r mwyaf agored (oherwydd cyfraddau uchel o salwch cronig oherwydd cyfatebiaethau cryf â dewisiadau ac ymddygiadau gwael o ran ffordd o fyw) arwain at feichiau iechyd anghymesur. Bydd cyflwyno targedau mwy llym ar gyfer deunydd gronynnol mân yn helpu i leihau'r baich ar gymdeithas, yn enwedig i'r mwyaf agored i niwed ac afiachedd.

*Crynhowch yr effeithiau mwyaf arwyddocaol i bobl a diwylliant Cymru a'r Gymraeg, economi ac amgylchedd Cymru, a ddisgwylir o ganlyniad i'r camau arfaethedig. Disgrifiwch y themâu a ddaeth i'r amlwg o gynnwys pobl. Cyfeiriwch at y saith nod llesiant ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Cyferbynnwch ag effaith camau presennol Llywodraeth Cymru os yw'n briodol.*

Mae'r Bil Aer Glân:

- Yn cryfhau'r fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n llywodraethu'r broses o reoli a rheoleiddio ansawdd aer yng Nghymru
- Yn cynnwys darpariaeth a fydd yn galluogi'r gwahanol sectorau i weithio ar y cyd ledled Cymru, gan gymryd camau i leihau llygredd aer i wella iechyd y cyhoedd, bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol
- Yn alinio polisi ansawdd aer â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru (fel iechyd, trafnidiaeth a datgarboneiddio)
- Yn ymgorffori camau arfaethedig yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn cefnogi'r nodau Llesiant sydd wedi'u corffori yn ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd 2016
- Yn ymgorffori ein hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

- Yn cysylltu ansawdd aer a datgarboneiddio
- Yn cyfuno ymrwymiadau presennol â chamau newydd i fynd i'r afael â gwella ansawdd aer ac
- Yn cymryd yr Argyfwng Hinsawdd a Thwf Amgylcheddol i ystyriaeth

Nod y Bil Aer Glân yw deddfu targed newydd ar gyfer deunydd gronynnol mân a sefydlu fframwaith pennu targedau â gofyniad i Weinidogion Cymru bennu un neu fwy o dargedau llygryddion.

Mae'r Bil Aer Glân yn cynnwys amrywiaeth o gynigion cysylltiedig sydd â'r bwriad o gynorthwyo gwelliant i ansawdd aer a gwella iechyd y genedl:

- fframwaith rheoli ansawdd aer deddfwriaethol a rheoleiddiol addas i'r diben
- pwerau cryfach i fynd i'r afael â cherbydau yn segura
- pwerau cyfunol i gyflwyno Parthau Aer Glân / Parthau Allyriadau Isel
- mynd i'r afael ag allyriadau o weithgareddau llosgi domestig a gwella'r drefn Rheoli Mwg yng Nghymru
- dyletswydd ar gyrff rhyng-sectoraidd i gydymffurfio â chanllawiau yn annog gwahanol ffyrdd o weithio a chamau i leihau llygredd aer a chefnogi datgarboneiddio
- gofyniad i Gynllun / Strategaeth Aer Glân gael ei gyhoeddi / adolygu bob 5 mlynedd

Credir na fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith andwyol neu niweidiol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'r Cynllun Aer Glân (y mae cynigion y Bil yn deillio ohono) yn rhoi sylw i amrywiaeth o lygryddion allweddol yn yr aer, eu heffaith a chamau sy'n cael eu cymryd i wella ansawdd aer.

Dyma'r llygryddion allweddol:

- Deunydd gronynnol ($PM_{2.5}$ a $PM_{10}$)
- Ocsidiau Nitrogen (NOx): yn cynnwys ocsid nitrig (NO) a nitrogen deuocsid ($NO_2$).
- Osôn ar lefel y ddaear ($O_3$)
- Sylffwr deuocsid ($SO_2$)
- Nicel (Ni)
- Bensopyren (B[a]P)
- Amonia ($NH_3$)
- Cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOCs)
- Bensen ($C_6H_6$)
- Plwm (Pb)
- Carbon Monocsid (CO)

Gallai'r Fframwaith Pennu Targedau gynnwys y llygryddion uchod, heb gyfyngiad.

Mae llygredd sŵn wedi'i gysylltu yn agos â llygredd aer a rhoddir sylw iddo hefyd.

Mae'r Cynllun Aer Glân yn defnyddio dull thematig i fynd i'r afael â meysydd effaith eang, lle gall gwaith ar draws sefydliadau a themâu fynd i'r afael yn well â phroblemau a chreu dulliau cydweithredol o gymryd camau yn y dyfodol. Mae'r themâu yn ategu ei gilydd ac yn rhyngweithio i greu dull cynaliadwy o wella ansawdd aer, wedi'i integreiddio â pholisi a deddfwriaeth arall. Dyma'r themâu:

- **Gwella ansawdd aer i ddiogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol** – gan gynnwys cyfathrebu, newid ymddygiad, addysg, a mynd i'r afael â hylosgi domestig;

- **Gwella ansawdd aer i gynorthwyo ein hamgylchedd naturiol, ein hecosystemau a'n bioamrywiaeth** – gan gynnwys, rheoli dŵr a thir, creu coetir a bioamrywiaeth;
- **Gwella ansawdd aer i gefnogi Cymru lewyrchus** – gan gynnwys llygredd diwydiannol, economi, ynni, gwastraff, amaethyddiaeth;
- **Gwella ansawdd aer i gefnogi lleoedd cynaliadwy** – gan gynnwys trafnidiaeth, cynllunio a seilwaith cenedlaethol a gwyrdd
  .

Cefnogir pob thema yn y Cynllun Aer Glân gan bennod a chamau cysylltiedig. Mae'r camau wedi'u fframio yng nghyfnod y Senedd presennol (hyd at 2021) a chyfnod y Senedd nesaf (2021-26) a'r dyfodol o 2026 ymlaen.

Generaduron Trydan, Trafnidiaeth ar y Ffyrdd, Diwydiannau Haearn a Dur, Purfeydd, Cynhyrchu Sinter, Cynhyrchu Olew a Nwy, Hylosgi diwydiannol arall, Hylosgi arall nad yw'n ddiwydiannol, Rheilffyrdd, Morgludiant, Amaethyddiaeth.

Credir na fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg a diwylliant Cymru.

**7.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant?**

Cyflwynir cynigion y Bil Aer Glân yng nghyd-destun ein hymrwymiadau o dan egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ei gwneud yn ddyletswydd ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried sut y gallai ei weithredoedd gael effaith yn yr hirdymor a sut y bydd yn lleddfu problemau tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd.

Mae cynigion y Bil Aer Glân yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn bennaf trwy geisio sicrhau Cymru iachach a Chymru fwy cydnerth. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i fod yn Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Bydd datblygu ein gwybodaeth, ein sgiliau a'n galluoedd o ran mynd i'r afael ag ansawdd aer a lleihau allyriadau niweidiol yn cyfrannu at fod yn Gymru lewyrchus. Gallwn ddangos Cymru o gymunedau cydlynus drwy'r ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â newid ar lefelau personol, cymdogaeth a gofodol, a thrwy ein cymunedau o fuddiant (e.e. amaethyddol, busnes a diwydiannol, diwylliannol, hanesyddol a chwaraeon, addysgol, amgylcheddol, technolegol, cysylltiedig ag oedran) ledled Cymru a'r byd ehangach.

**Y Nodau Llesiant ac ansawdd aer**

| Nod | Disgrifiad | Effeithiau | Cyfraniad y Bil Aer Glân |
|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr | Effeithiau ar fusnesau, cystadleuaeth a chyflogaeth, cynhyrchiant | Mae Cymru yn ddibynnol ar weithlu cynhyrchiol a mannau deniadol i fusnesau fuddsoddi. Bydd y Fframwaith yn canolbwyntio ar y gefnogaeth i sicrhau twf economaidd yng |

| Nod | Disgrifiad | Effeithiau | Cyfraniad y Bil Aer Glân |
|---|---|---|---|
| | amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn **economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth**, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | Effeithiau amlygiad i lygredd aer ar iechyd. | Nghymru tra bod targedau llygryddion aer a bennir yn gwella ansawdd aer.<br><br>Byddai gweithlu iach ac amgylchedd glân yn cyfrannu at ffyniant trwy weithlu cynhyrchiol. Mae gwelliannau i iechyd yn lleihau costau meddygol ac iechyd. Byddai effeithiau cyflogaeth cadarnhaol hefyd yn codi i'r cwmnïau hynny sy'n gweithgynhyrchu ac yn gosod technolegau atal yn y DU.<br><br>Bydd costau (costau ariannol) sy'n ofynnol i sicrhau'r gostyngiadau i lygredd aer trwy dargedau sydd newydd eu pennu yn effeithio ar amrywiaeth eang o sectorau. Byddwn yn cymryd camau i reoli unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar gyflogaeth, cystadleuaeth a mentrau bach a chanolig eu maint (BBaChau).<br><br>Mae lleihau allyriadau o drafnidiaeth, diwydiant a sectorau eraill yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol a sylweddol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar amgylchedd Cymru a gweithrediad ecosystemau.<br><br>Bydd nodau'r rhaglen ddatgarboneiddio yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd aer ac i'r gwrthwyneb.<br><br>Bydd pennu targedau llygryddion aer penodol nid yn unig yn lleihau allyriadau ac yn datblygu cydnerthedd ond hefyd yn sicrhau bod gan yr ardal o Gymru yr ydym yn byw ynddi aer a dŵr glân, mannau y gellir byw ynddynt, tir fferm cynhyrchiol, diogelwch ynni a swyddi gwyrdd. |
| Cymru gydnerth | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac | Effeithiau ar ansawdd aer, allyriadau nwyon tŷ gwydr ac effeithiau llygredd ar fioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol | |

| Nod | Disgrifiad | Effeithiau | Cyfraniad y Bil Aer Glân |
|---|---|---|---|
| | ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, y newid yn yr hinsawdd). | | |
| Cymru iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol | Effeithiau ar iechyd pobl | Gall ansawdd aer gwael gael effaith anghymesur ar iechyd a llesiant plant, a phobl hŷn, dlawd ac agored i niwed. Bydd lleihau llygredd aer a lefelau crynodiad llygryddion yn ôl tystiolaeth ryngwladol (h.y. Sefydliad Iechyd y Byd) yn cael effaith uniongyrchol a sylweddol ar wella iechyd a lles dynol i bawb. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). | Effeithiau camau ansawdd aer ar gydraddoldeb | Bydd pawb sy'n byw yng Nghymru ac yn ymweld â hi yn elwa o welliannau i ansawdd aer, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.<br><br>Gall ansawdd aer gwael gael effaith anghymesur ar iechyd a llesiant plant a phobl hŷn, dlawd ac agored i niwed.<br><br>Bydd mynd i'r afael ag effeithiau ansawdd aer gwael a gwella ansawdd aer ac iechyd pobl yn cael effaith gadarnhaol ar hybu cydraddoldeb yng Nghymru, yn enwedig pan fo gwelliannau yn cyd-daro â lefelau crynodiad llygryddion uchel. |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da | Effeithiau ansawdd aer ar gymunedau | Camau Cadarnhaol (anuniongyrchol) / Niwtral - Bydd camau i wella ansawdd aer a arweinir gan gymunedau lleol neu a gyd-gynhyrchir â nhw yn cael mwy o effaith ac yn cael eu hintegreiddio yn well gyda chamau eraill i wella ansawdd bywyd, iechyd a llesiant, yr amgylchedd a chyfleoedd ar gyfer ffyniant.<br><br>Byddai gwell ansawdd aer mewn cymunedau difreintiedig yn cyfrannu at well ansawdd |

| Nod | Disgrifiad | Effeithiau | Cyfraniad y Bil Aer Glân |
|---|---|---|---|
| | | | bywyd a chymunedau mwy cydlynus. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Effeithiau ar iechyd, yr amgylchedd, diwylliant a phoblogaeth | Bydd camau i gynorthwyo unigolion, busnesau a Llywodraeth i ddeall, gwerthfawrogi ac uniaethu â phwysigrwydd gwella ansawdd aer yng Nghymru, yn grymuso pawb i chwarae eu rhan eu hunain o ran cynorthwyo gostyngiadau i lygredd aer.<br><br>Rydym wedi ymrwymo i gael ansawdd aer sy'n galluogi pobl Cymru ac ymwelwyr â hi fwynhau a hyrwyddo amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden ledled Cymru.<br><br>Byddai gwell iechyd yn cynnig cyfleoedd pellach i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden.<br><br>Byddai gwarchod ecosystemau naturiol a bioamrywiaeth yn gwella cyfalaf diwylliannol Cymru ac yn darparu gweithgareddau awyr agored.<br><br>Rydym yn disgwyl, a byddwn yn annog, yn hyrwyddo ac yn hwyluso yn weithredol, y defnydd o'r Gymraeg trwy addysg a gwasanaethau fel y nodir yn 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Byddwn yn sicrhau safonau cyfartal o wasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth i ni weithredu'r Bil Aer Glân, byddwn yn |

| Nod | Disgrifiad | Effeithiau | Cyfraniad y Bil Aer Glân meithrin hunaniaeth i Gymru sy'n unigryw. |
|---|---|---|---|
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. Mae Nod 7 yn cydnabod mewn byd rhyng-gysylltiedig y gall yr hyn yr ydym yn ei wneud i droi Cymru yn wlad gynaliadwy gael effeithiau cadarnhaol a niweidiol y tu allan i Gymru. | Effeithiau ar ansawdd aer, allyriadau nwyon tŷ gwydr a bioamrywiaeth/cynefinoedd | Mae llygredd aer yn broblem amgylcheddol fyd-eang fawr sy'n effeithio ar bawb. Nid yw llygredd aer yn terfynu wrth ffiniau cenedlaethol a rhyngwladol nac yn eu parchu. Byddwn yn cymryd camau cadarnhaol cryf ar ansawdd aer yng Nghymru i fodloni ein rhwymedigaethau moesegol a chyfreithiol cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd camau i wella ansawdd aer yn cael eu halinio yn agos â chamau ar ddatgarboneiddio.<br><br>Byddai gwell ansawdd aer yn cyfrannu yn uniongyrchol at lesiant amgylcheddol yng Nghymru. Mae gwarchod ecosystemau ar safleoedd NATURA 2000 a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) yn gyfraniad rhyngwladol at gynnal bioamrywiaeth.<br><br>Mae cydymffurfiad â'r terfynau allyriadau uchaf cenedlaethol yn gyfraniad at gynnydd rhyngwladol o ran lleihau llygredd aer trawsffiniol y tu allan i Gymru, â manteision cyfatebol o leihau allyriadau y tu allan i Gymru, gan gynnwys yng ngweddill y DU. |

| **Y Pum Dull o Weithio** | **Nod y Bil Aer Glân yw cyflawni yn unol â Phum Dull o Weithio'r Ddeddf trwy:** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Atal** | Cymryd camau **ataliol** i leihau effeithiau llygredd aer ar iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd naturiol trwy fabwysiadu dulliau ataliol lle gallwn, a datblygu camau cynnar llwyddiannus gan lunio atebion hirdymor. |
| **Hirdymor** | Sefydlu **targedau hirdymor** a chamau cynaliadwy i sicrhau gostyngiad graddol allyriadau a llygryddion yn yr aer – er enghraifft, y gostyngiad graddol i lefelau crynodiad llygryddion gan gynnwys $PM_{2.5}$ yn yr aer. |
| **Cydweithio** | **Cydweithio** ag adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, partneriaid cenedlaethol ac ar lefel leol i sicrhau bod camau yn cael eu rhoi ar waith ac amcanion llesiant yn cael eu bodloni – |
| **Integreiddio** | Gwella **integreiddiad** prosesau rheoli ansawdd aer trwy well arferion gwaith rhwng sefydliadau sector cyhoeddus, sector masnachol a thrydydd sector, gan gydbwyso'r tensiynau rhwng, er enghraifft, lleihau allyriadau a hybu cynhyrchiant economaidd. |
| **Cynnwys** | **Cynnwys** rhanddeiliaid yn natblygiad a darpariaeth y rhaglen waith ar bob cam, gan ddeall yr hyn sydd ei angen mewn gwahanol fannau gan wahanol grwpiau o bobl. |

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym wedi nodi amlygiad cyfartalog y boblogaeth i $NO_2$ fel un o Ddangosyddion Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a ddefnyddir i fesur cynnydd tuag at nodau llesiant yng Nghymru. Mae rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ystyried ansawdd aer wrth gynnal eu hasesiadau statudol o lesiant lleol.

*Pa gamau all Llywodraeth Cymru eu cymryd i hybu bioamrywiaeth, hawliau plant, cydraddoldebau, y Gymraeg neu un arall o'r meysydd sydd wedi'u cynnwys yn eich asesiadau effaith?*

Gweler uchod, a'r atodiadau perthnasol isod.

*Pa gamau all Llywodraeth Cymru eu cymryd i gryfhau ei chyfraniad at nod penodol neu gyfrannu at nodau ychwanegol?*

Gweler uchod

*Pa gamau all Llywodraeth Cymru eu cymryd i osgoi, lleihau neu liniaru effaith negyddol?*

Gweler uchod

*Os nad oes unrhyw gamau yn cael eu cymryd i osgoi, datrys neu liniaru effaith negyddol, yna esboniwch pam.*

Amherthnasol.

**7.4 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo ddatblygu a phan gaiff ei gwblhau?**

*Pa gynlluniau sydd ar waith ar gyfer adolygu a gwerthuso ôl-weithredu?*

Bydd y Bil Aer Glân yn cael ei gyflwyno yn y Senedd yn ystod y tymor nesaf. Ar ôl ei weithredu, bydd yn destun monitro, gwerthuso ac adolygu rheolaidd.